


# CLEFYD
# Coed Ynn

## GWYBODAETH A CHYNGOR I BERCHNOGION TIR

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Beth yw clefyd coed ynn?

**Mae clefyd coed ynn yn glefyd ffyngaidd sy'n cael ei ledaenu gan sborau yn yr awyr. Mae'r ffwng (a elwir yn Chlalara neu Hymenoscyphus fraxineus) yn cydio'i hun i ddail y coed ynn ac yn lledu i'r canghennau, gan beri i'r goeden farw. Gall canghennau marw a choed cyfan marw fynd yn frau iawn a syrthio, gan greu risg difrifol i'r cyhoedd y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef.**

Daw symptomau'r clefyd i'r golwg gyntaf yng nghorun y goeden, wrth i ddail droi'n ddu a syrthio ar ddiwedd yr haf yn hytrach na'r hydref, ac mae briwiau i'w gweld weithiau oddi uwch ac oddi tan y man lle mae'r canghennau'n ymuno â boncyff y goeden.

Mae clefyd coed ynn yn fater difrifol i gynghorau a pherchnogion tir ar draws y DU; amcangyfrifir y gallai 90% o goed ynn farw o'r clefyd hwn nad oes unrhyw driniaeth ar ei gyfer ar hyn o bryd.



*Briwiau uwch ben ac o dan gangen fechan ar goeden ifanc.*

# Beth mae'r cyngor yn ei wneud am glefyd coed ynn?

**Mae llawer o waith yn cael ei gyflawni ac mae nifer fawr o swyddogion wedi cael eu hyfforddi i allu adnabod y clefyd.**

Rydym yn canolbwyntio ar goed sy'n peri risg i'r cyhoedd, p'un a ydynt ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor neu ar dir preifat. Rydym yn gwneud yn siŵr fod arolygon diogelwch coed a wneir ar ein tir ein hunain (er enghraifft mewn ysgolion, meysydd parcio ac ardaloedd tai) yn gyfoes a bod unrhyw waith angenrheidiol a amlygir yn yr arolygon hyn yn cael ei wneud. Rydym hefyd yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth o glefyd coed ynn, gan roi cyngor i berchnogion tir ynghylch eu cyfrifoldebau, ac yn gweithio gydag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru, Cymdeithas y Tirfeddianwyr a Chyfoeth Naturiol Cymru.



*Mae dail ynn ar goed a effeithiwyd yn troi'n ddu ac yn syrthio ar ddiwedd yr haf yn hytrach na'r hydref*

# Eich coed a'ch cyfrifoldeb cyfreithiol

**Cyfrifoldeb perchennog y tir neu'r tenant yw'r holl goed ar dir preifat. O dan Ddeddf Cyfrifoldeb Meddianwyr 1957 ac 1984 a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 mae gan berchnogion tir gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod yr holl goed ar eu tir yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel ac nad ydynt yn creu risg i'r cyhoedd.**

Os yw coeden ag ynddi ddiffygion amlwg yn creu niwed neu ddifrod i bobl neu eiddo wrth syrthio, neu wrth i'w changhennau syrthio, mae'n debygol iawn y gallai perchennog y tir fod yn gyfreithiol gyfrifol am niwed neu ddifrod o'r fath. Mae'n bwysig fod perchnogion tir yn cymryd camau priodol i asesu'r risg gan bob coeden ar eu tir, gan gynnwys coed ar ffiniau, sydd mewn cyflwr gwael.

Mae'r risg gan goeden mewn cyflwr gwael neu sydd â changhennau marw neu yn marw yn dibynnu ar ei lleoliad yn ogystal â'i chyflwr. Bydd coed mewn cyflwr gwael sy'n agos at ardaloedd trwm eu defnydd (er enghraifft, priffyrdd) yn creu risg llawer uwch na choed mewn caeau, cloddiau a choetiroedd ymhell o dai a hawliau tramwy cyhoeddus.

Cynghorir perchnogion tir i gyflogi tyfwr coed cymwysedig a achredwyd gan y Gymdeithas Goedyddiaeth i arolygu eu coed.

**Cadwch lygad allan am y canlynol:**

- Coed sydd â mwy na 50% o glefyd coed ynn ar y corun, sydd o fewn pellter syrthio i briffordd gyhoeddus.
- Coed sydd â llai na 50% o glefyd coed ynn ar y corun ac sy'n dangos arwyddion ychwanegol o wendid; megis heintiau ffyngaidd, neu geudodau ar waelod y goeden, ac sydd gerllaw'r briffordd.
- Coed sydd â llai na 50% o glefyd coed ynn ar y corun, ond sydd â changhennau marw mawr yn tyfu dros y briffordd.



*Mae canghennau ar y goeden onnen hon yn dangos arwyddion o glefyd coed ynn*

# Diogelwch priffyrdd

**O dan Ddeddf Priffyrdd 1980, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i sicrhau y cedwir y priffyrdd i safon ddiogel.**



*Mae coeden farw / sydd yn marw wrth ymyl y briffordd ac ar gyffordd yn peri risg gymharol uchel*

O ganlyniad, gallwn wneud ceisiadau ffurfiol i berchnogion tir waredu neu docio coed sy'n creu risg i'r cyhoedd. Rhoddir y cyngor canlynol:

- Dylai coed ar briffyrdd sy'n cael eu defnyddio'n drwm a gollodd 50% neu ragor o'u canopi neu sy'n dangos arwyddion eraill o fethu ar fonyn y cyff (er enghraifft, heintiau neu geudodau eraill) gael eu gwaredu rhag ofn os ydynt o fewn pellter syrthio i'r briffordd, oherwydd y risg fyddai'n cael ei chreu a pha mor gyflym y gall rhai coed ynn ddirywio.
- Dylid monitro coed iach yn flynyddol i weld a gawsant eu heintio.

Oherwydd y nifer fawr o goed ar hyd ein priffyrdd sy'n dangos symptomau o'r clefyd, os yw ein harolwg yn dangos fod coeden onnen yn dangos o leiaf 50% o glefyd coed ynn, anfonir llythyr gwybodaeth at berchennog y tir yn argymell y dylid cwympo'r goeden. Os na chaiff ei chwympo o fewn blwyddyn, anfonir llythyr ffurfiol.

Pan mae gan goeden glefyd coed ynn i'r corun o fwy na 75%, neu pan mae'n creu risg mwy di-oed, cychwynnir y broses gyfreithiol bedwar cam ffurfiol o dan y Ddeddf Priffyrdd.



*Coeden sydd wedi colli 100% o'i chanopi. Os yw'n peri risg i'r cyhoedd neu i eiddo dylid ei chwympo*

# Cwympo coed ger y briffordd

**Os oes angen ichi gwympo coed a allai syrthio ar neu ar draws y briffordd neu achosi unrhyw berygl arall i ddefnyddwyr priffyrdd, mae'n rhaid ichi gyflogi contractwr rheoli traffig cymwysedig.**

Byddant yn sefydlu system reoli traffig dros dro i sicrhau bod diogelwch modurwyr a cherddwyr yn cael ei reoli'n briodol yn ystod y gwaith diogelwch coed. Gellir dal perchnogion tir yn atebol a gellir eu herlyn am unrhyw anaf a achosir i'r cyhoedd oherwydd unrhyw waith y maent wedi'i drefnu / gyflawni.



*Bydd llawer o goed sydd â chlefyd coed ynn yn beryglus i'w dringo a bydd rhaid eu cwympo gan ddefnyddio llwyfannau uchel*

Os oes angen cau ffordd er mwyn gwneud y gwaith, bydd angen i berchnogion tir wneud cais i is-adran priffyrdd y Cyngor i gau ffordd, a gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan y Cyngor o dan yr adran Teithio, Ffyrdd a Pharcio. Bydd meddyg coed cymwysedig a phrofiadol yn gallu'ch cynghori ynghylch y trefniadau angenrheidiol y bydd angen ichi eu gwneud o ran diogelwch priffordd.

# Trwyddedau cwympo coed

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am weinyddu trwyddedau cwympo ac mae Deddf Coedwigaeth (1967) yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chwympo coed. Eithrir coed mewn gerddi, mynwentydd a llecynnau cyhoeddus agored o'r ddeddfwriaeth hon.**

Er mwyn cwympo coed ynn a heintiwyd rhaid cael trwydded gan y Comisiwn Coedwigaeth, onid yw'r coed yn farw neu'n creu perygl gwirioneddol a di-oed. Ceir canllawiau llawn ar reoli coed ynn unigol yr effeithiwyd arnynt gan glefyd coed ynn ar ei wefan.

Gall Cyfoeth Naturiol Cymru ymchwilio achosion o gwympo coed pan na roddwyd trwydded cwympo a bydd yn cymryd camau gorfodaeth pan nad oes unrhyw eithriad amlwg ar gael. Fe'ch cynghorir i gysylltu â CNC i drafod a fydd angen trwydded cwympo arnoch cyn gwneud y gwaith. e-bost at fellinglicence@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ffonio 0300 065 3000

# Gorchmynion Diogelu Coed a choed mewn ardaloedd cadwraeth

Os ydych eisiau gwneud gwaith i goeden sy'n destun Gorchymyn Diogelu Coed bydd yn rhaid ichi wneud cais i'r Cyngor am ganiatâd; a bydd angen ichi roi rhybudd cyn gwneud unrhyw waith ar goed sydd mewn ardal gadwraeth. Gallwch wneud cais am ganiatâd i gynnal gwaith ar goed sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed neu sydd mewn ardal gadwraeth ar wefan y Cyngor.

# Beth ddylwn ei wneud â'r pren o goeden a gafodd ei chwympo?

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar symud y pren. Os nad yw'r clefyd wedi effeithio ar y pren gellir plancio darnau mwy a'u defnyddio ar gyfer gwaith coed a defnyddio darnau llai i durnio coed; neu gellir gadael canghennau bychain yn gynefin i fywyd gwyllt. Mae pren yr effeithiwyd arno yn dywyllach ei liw ac yn frau iawn ac mae'n gwneud coed tân defnyddiol.

# Bywyd gwyllt



*Gellir dod o hyd i ystlumod mewn agennau mewn coed trwy gydol y flwyddyn.*

**Gall coed ynn aeddfed ag ynddynt dyllau a holltau gynnal ystlumod ac adar nythu ac efallai bathewod, sydd oll yn cael eu gwarchod gan y gyfraith. Er y gall cwympo brys fod yn angenrheidiol mewn rhai sefyllfaoedd, gall gymryd blwyddyn neu fwy i goeden a heintiwyd fynd yn beryglus, sy'n golygu y gellir cynllunio cwympo ar gyfer misoedd yr hydref a'r gaeaf a fyddai'n helpu lleddfu unrhyw effeithiau negyddol ar fywyd gwyllt.**

Dylid osgoi cwympo coed yn ystod tymor nythu adar, oddeutu diwedd mis Chwefror i ddechrau mis Awst.

Dylai cwympo coed mewn argyfwng sy'n cynnwys craciau a holltau a allai gynnal ystlumod ddefnyddio 'technegau cwympo meddal', hynny yw, gadael y darnau a gafodd eu cwympo ar y llawr am 48 awr wedi eu cwympo i alluogi ystlumod a bywyd gwyllt arall i adael y pren. Gall fod dewisiadau eraill yn lle gorfod cwympo'r goeden gyfan, er enghraifft, gall fod yn bosib cadw'r cyff, a gallai hwnnw fod o werth mawr i fywyd gwyllt.

Yr amser gorau i gwympo coed ynn mewn cynefinoedd sy'n cynnal pathewod yw'r gaeaf, rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror, i gyfyngu'r effaith ar bathewod. Mae coetiroedd, prysgwydd, perthi a mieri yn darparu cynefinoedd addas. Dylid trafod safleoedd lle mae nifer fawr o goed ynn y mae angen eu cwympo â thîm trwyddedu rhywogaethau CNC.

# Ailblannu

**Fe fydd angen plannu coed newydd i wneud yn iawn am golli coed ynn yn y sir, a bydd y Cyngor yn mynd ati o ddifrif i chwilio am gyllid i gefnogi prosiectau ail-blannu. Gellir cael gwybodaeth a chyngor ynghylch plannu coed ar wefannau Coed Cadw a'r Cyngor Coed neu cysylltwch â Gus Hellier, swyddog Coed Cymru, drwy anfon e-bost at GHellier@sirgar.gov.uk neu ffonio 01558 825303.**

# Rhagor o wybodaeth

Cyngor Sir Caerfyrddin - **sirgar.llyw.cymru**
Cyfoeth Naturiol Cymru - **naturalresources.wales**
Y Gymdeithas Goedyddiaeth - **trees.org.uk/find-a-professional**
Comisiwn Coedwigaeth **- gov.uk/government/organisations/forestry-commission**
Y Cyngor Coed - **treecouncil.org.uk**
Coed Cadw - **woodlandtrust.org.uk**
Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod - **bats.org.uk**